# WILLIAMS, THOMAS ('Eos Gwynfa ', neu ' Eos y Mynydd '; c. 1769 - 1848), bardd

**Enw:** Thomas Williams
**Ffugenw:** Eos Gwynfa, Eos Y Mynydd
**Dyddiad geni:** c. 1769
**Dyddiad marw:** 1848
**Plentyn:** John Williams
**Plentyn:** Joseph Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Enid Pierce Roberts

Ganwyd naill ai ym mhlwyf Llanfyllin neu ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Sir Drefaldwyn, c. 1769. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn y T -uchaf, ger Pontysgadarn, Llanfihangel, yn dilyn ei grefft fel gwehydd. Ymaelododd gyda'r Annibynwyr ac yr oedd yn un o'r rhai a fu'n gyfrifol am adeiladu capel Braich-y-waun. Yr oedd hefyd yn un o'r rhai a gymhellodd ' Ieuan Gwynedd ' i ddechrau pregethu. Bu farw fis Tachwedd 1848, yn 79 oed; claddwyd ef 18 Tachwedd, ym mynwent eglwys Llanfihangel. Ysgrifennodd lawer o farddoniaeth, carolau duwiol, plygain a Phasg gan mwyaf, a chyhoeddwyd pum llyfr o'i waith yn ystod ei fywyd: *Telyn Dafydd*, 1820; *Ychydig o Ganiadau Buddiol*, 1824; *Newyddion Gabriel*, 1825, ail arg. 1834; *Manna'r Anialwch*, 1831; *Mer Awen*, 1844. Mewn ardal enwog am ei phlygeiniau, yr oedd bri ar ei garolau ef. Aeth dau o'i feibion i'r weinidogaeth, Joseph, a fu'n weinidog yn Llansilin ar un adeg, a John, a drodd yn ddiweddarach at y Bedyddwyr.

## Awdur

**Dr Enid Pierce Roberts**

## Ffynonellau


T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Cymru (O.M.E.)*, ii, 273; iii, 18, 68, 70

*Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire*, ix, 161

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 318

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 364

cofrestri eglwys blwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Williams (Eos Gwynfa)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 21949826

Wikidata: Q13131865


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu